EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD
# HAF 2025

## GAIR GAN Y GWEINIDOG

### HOLL YSBLANDER DUW

“Mae holl ysblander Duw yn disgleirio ohono. Mae e'n dangos i ni'n berffaith sut un ydy Duw.” (Hebreaid 1:3)

Yn ddiweddar, cefais fwynhad mawr o wylio un o’r rhaglenni ditectif celf yna ar iPlayer sef ***‘Fake or Fortune’***. Os nad ydych wedi gweld y rhaglen, dyma esbonio. Mae’r cyflwynwyr yn cael llun gwahanol i’w astudio bob tro ac yn ceisio dirnad ai llaw un o’r meistri celf fu ar waith neu ai twyllwr sydd wedi ffugio’r llun. Wrth ddefnyddio technegau clasurol (e.e. glanhau haen o farnais oddi wrth y llun) yn ogystal â manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf mae nhw’n ceisio adnabod llaw y meistr yn y llun.



FAKE OR FORTUNE
Philip Mould a Fiona Bruce


Gyda digwyddiadau erchyll sy’n llenwi’n bwletinau newyddion y dyddiau hyn yn ddyddiol am ddioddefaint pobl Palesteina dan law arweinwyr Israel, gall rhai o ddywediadau ac adnodau ffydd cyfarwydd ein taro ni’n chwithig. Ydyn ni’n gallu dweud ***“Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel”*** heb ofyn a ydym yn credu bod Duw yn ochri gydag Israel greulon, ac os ydy e, ydan ni’n teimlo fel closio ato? Fel gyda’r ditectifs celf, da ni angen ceisio edrych dan wyneb yr hyn sy’n mynd ymlaen er mwyn adnabod llaw y meistr, gweld lle mae Duw ar waith. Yr un mor bwysig efallai ydy datgan be sydd o law dynol a ddim yn perthyn i Dduw o gwbl. Mae hwn yn bwnc dwfn a dyrys ac yn haeddu mwy o ofod na hyn, ond mae’r frawddeg hon o Lythyr Paul at y Cristnogion Iddewig yn dweud un peth pwysig iawn wrthym fel Cristnogion. Y llinyn mesur wrth geisio adnabod llaw Duw ar waith yn y byd ydy Iesu Grist. ***“Mae holl ysblander Duw yn disgleirio ohono. Mae e'n dangos i ni'n***


***berffaith sut un ydy Duw."*** Yr hyn mae awdur y llythyr yn awgrymu ydy bod Crist yn cyrraedd ar drobwynt yn hanes y ffydd pan mae Duw yn dangos llawer yn gliriach i ni sut un yw e. Mae 'na oleuni yn torri drwy gymylau brwydro a lladd yr Hen Destament o dro i dro ond dim ond pan mae Iesu'n ymddangos ar lwyfan hanes mae'r llifoleuadau'n dod ymlaen yn llawn. Os y bu brwydro gwaedlyd rhwng pobloedd yn rhan o wreiddiau ein ffydd, bellach yng Nghrist, yr unig ***'frwydr'*** ydy i ennill meddyliau a chalonnau gydag Efengyl cariad a maddeuant. Ein cymodi â Duw a'n tynnu ni'n nes at ein gilydd yw ymgyrch Crist, nid lladd a chwalu a dinistrio. Mae Iesu'n disgleirio gyda chariad Duw. A dyna paham y medraf ddatgan gydag argyhoeddiad dwfn a diffuant nad ydy Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist yn cefnogi ac yn ffafrio cenedl Israel er iddi chwarae rhan allweddol yn natblygiad y ffydd Gristnogol. Does gen i ddim amheuaeth chwaith – mae'n tosturio wrth bobl Palesteina ac yn ddig am y bywydau diniwed sy'n cael eu colli yno'n ddyddiol. Mae ein Duw ni, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist yn Dduw sy'n bwydo pobl â haelioni, nid yn dal pobl yn wystlon i newyn. Peidiwn â beio Duw am ddioddefaint pobl Palesteina ond beio arweinwyr gwledydd, y rhai sydd yn y fan a'r lle a'r rhai llawer nes adre sydd ar y gwaethaf yn eu cefnogi ac ar y gorau yn gwrthod eu condemnio.


## GWEDDÏWN

*Arglwydd Iesu,*
*Rwyt ti'n disgleirio gyda chariad y Tad,*
*ac rwyt ti'n cynnig maddeuant a chymod mewn byd creulon.*
*Cyflwynwn i ti y sefyllfa ym Mhalesteina*
*gyda'n calonnau sydd fel dy galon di*
*yn torri wrth weld y diniwed yn dioddef*
*a'r gormeswyr fel petaent yn cael rhwydd hynt.*
*Rydym yn dyheu o waelod ein calonnau heddiw*
*i weld diwedd ar y dioddefaint*
*a gweld dechrau ar adeiladu dyfodol gwell i bawb.*
*Yn dy enw di, Dywysog Tangnefedd da ni'n gofyn hyn,*

**Amen.**






Gan fod crybwyll yn **Gair y Gweinidog** am Fake or Fortune dyma enghraifft o ddau beintiad olew ‘**Gwneuthurwraig les**’.

Mae’r un gwreiddiol wedi ei wneud yn yr 17eg ganrif a’r copi wedi ei baentio ar ddiwedd yr 20fed ganrif. ‘Doedd dim bwriad o gwbl i geisio twyllo yn yr achos yma - dim ond i ymarfer paentio yn y dull clasurol.

Os am wybod mwy am pwy a’i beintiodd, mae’r ateb ar dudalen arall.

*Mae ein diolch yn fawr i Gareth Ffowc Roberts*
*am ysgogi cyfranwyr*
*a chasglu a golygu’r deunydd*
*ar gyfer y rhifyn yma.*

Ar gyfer rhifyn Hydref 2025
dylid gyrru’r holl ddeunydd i Gareth ac Ann Roberts
erbyn 21 Medi

ebost : *garethroberts46@icloud.com*
Ffôn : *(01248) 364049*

gyda copi(cc) i’r Negesydd
ebost : *negesydd@btinternet.com*

# LLINELL GOCH

*Wrth i'r rhifyn yma o'r Negesydd eich cyrraedd, parhau mae'r ymosodiadau mileinig ar sifiliaid Palesteina, gan gynnwys plant, gyda nifer fawr erbyn hyn wedi eu lladd gan daflegrau a bomiau neu wedi marw o newyn.*





*** Fel eglwys, rydym yn cynnwys Palesteina yn ein gweddïau'n gyson ar y Sul gan neilltuo man arbennig yn y Capel gyda rhubanau pinc a glas i gofio am y bechgyn a'r merched diniwed sydd wedi colli eu bywydau.**

*** Pob nos Sul bydd nifer o'n haelodau yn mynychu gwylnos am 6.30yh ar y Maes yng Nghaernarfon i rannu'r newyddion diweddaraf am y gyflafan ac i dystio mewn ffordd heddychlon a di-drais am yr angen am gadoediad yn Gaza a therfyn ar yr hil-laddiad sy'n digwydd yno.**

*** Bu rhai o aelodau Emaus ymhlith 1,200 o bobl fu'n protestio'n heddychlon ar strydoedd Aberystwyth ddiwedd mis Gorffennaf gan gario stribed hir o ruban coch hyd y prom a thrwy'r dre. Mae'r 'llinell goch' yn dynodi'r llinell sydd wedi ei chroesi mor aml gan luoedd Israelaidd o ran yr hyn sydd yn 'dderbyniol' mewn rhyfela, gan gynnwys: targedu sifiliaid; gwahardd y wasg ryngwladol rhag cael mynediad; lladd newyddiadurwyr a gweithwyr dyngarol; a defnyddio newyn fel arf.**

***Casi***

## DERBYNIWYD TRI O GYFEILLION EMAUS I'R ORSEDD YN YR EISTEDDFOD ELENI.



Enw Dewi yn yr Orsedd yw
**'Dewi Llwyd o'r Garth'**.

Dywedodd Dewi mai dyma'r anrhydedd fwyaf i Gymro Cymraeg, ac wrth ei derbyn mae'n hynod ddiolchgar i'r holl wylwyr a gwrandawyr sydd wedi bod mor gefnogol iddo ar hyd y blynyddoedd.



Derbyniwyd Gwenllian Lansdown Davies i wisg las yr Orsedd am ei gwaith arbennig fel Prif Weithredwr Mudiad Meithrin ers 2014.

Ei henw gorseddol ydy
**'Gwenllian Haf'**.



Derbyniwyd Bill Davies i wisg las yr Orsedd am ei wasanaeth eang i'r genedl. Ceir ei adnabod yn yr Orsedd fel
**'Bill o Bensyflog'.**

Wrth ymyl stesion trenau Porthmadog, ger Gwesty'r Queens, mae stad o dai, tua 180 mewn nifer, o'r enw *'Pensyflog'*. Yno y cafodd Bill ei fagu. Roedd y tai wedi'u hadeiladu ar dir fferm *Pensyflog.*

## CYNGERDD CLOI CYNHADLEDD UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

### UBC YN LLUNDAIN



I gloi gweithgareddau Undeb Bedyddwyr Cymru yn Eglwys Gymraeg Ganol Llundain eleni, cafwyd cyngerdd ardderchog yng nghwmni Côr Llundain dan arweiniad William Thomas gydag Eleri Gwilym, *Soprano*, Trystan Llŷr Griffiths, *Tenor*, Manon Browning, *Telyn*, a Iestyn Evans, *Organ.*

Ar ddiwedd y cyngerdd, cefais gyfle i gael sgwrs gydag Awen Fflur Edwards – aelod o'r Côr a chyfle i ddatgelu mod i yn Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog pan gyfarfu ei thaid a'i nain – Tom a Muriel – a bu criw y chweched yn gwylio'r garwriaeth yn datblygu gyda phleser! Byddem hefyd yn mwynhau eu cwmni yng nghyfarfodydd Cymdeithas Cyfeillion a Chyn-ddisgyblion Ysgol y Moelwyn.

Mae'n bosib y bu cyfle i weld Awen yn Steddfod Wrecsam pan oedd Côr Llundain yn cystadlu ar y dydd Gwener.

*Sian Arwel*

### CYMUN SANCTAIDD CYNTAF

Yn ystod mis Mehefin fe aeth Wil a Meriel Parry, ynghyd ag aelodau eraill o'r teulu draw i Lerpwl ar gyfer Cymun Sanctaidd Cyntaf eu hwyres Emilia Elizabeth Parry.


Naw oed ydi Emilia ac roedd hi a 28 o blant eraill yn rhan o'r gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair, Woolton.

Mae trefn yr eglwys Gatholig yn wahanol i'r drefn pan ddaeth Huw, ei thad, yn aelod o'r Eglwys ym Mhendref. Dim ond y bara oedd yn cael ei rannu yn y gwasanaeth, gyda'r derbyn llawn yn digwydd pan maent tua 15 oed.



MASNACH DEG

# BLODAU




## MASNACH DEG

**Edrychwn ymlaen i ailddechrau ein boreau coffi Masnach Deg ddydd Sadwrn Medi 6ed o 10-12 o'r gloch.**

***Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y chwe mis diwethaf*.**

Byddwn yn rhannu'r elw o'r gwerthiant rhwng ein tair elusen ddiwedd y flwyddyn.

*Catrin*

**BLODAU MISOEDD AWST A MEDI**

Diolch i Nia, Ann ac Eleri am roi'r blodau yn ystod mis Gorffennaf.

Bydd Meriel a Kath yn gofalu y bydd blodau ar gyfer yr oedfaon yn ystod mis Awst.

**ROTA MIS MEDI:**

7 : Kath Jones
14 a 21 : Delyth Murphy
28 : Eleri Williams

*Diolch*
Meriel a Kath
***merielparry@gmail.com***

**Y WNEUTHURWRAIG LES**

**A -** *Copi a baentiwyd gan y dalentog ddiweddar Nancy Morris yn 1990*
**B -** *Y gwreiddiol a baentiwyd gan Johannes Vermeer tua 1670*

## *AELOD SY'N DANGOS Y POTENSIAL MWYAF*

Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys sydd wedi derbyn gwobr, fel rhan o gynllun

**Academi Amaeth Iau 2024,**
**Cyswllt Ffermio.**

Cyflwynwyd y wobr i Cian yn ystod Sioe Frenhinol Cymru fis Gorffennaf.

Roedd Cian yn un o 12 o bobl ifanc fu'n ffodus i sicrhau lle ar yr **Academi Amaeth Iau**, sef rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan Cyswllt Ffermio ar gyfer pobl ifanc sydd a diddordeb datblygu gyrfa yn y diwydiant amaeth.

Yn ystod 2024, a hanner cyntaf 2025, manteisiodd Cian ar amrediad o weithgareddau fel rhan o'r rhaglen gan gynnwys ymweliad a Norwy i ddysgu am eu systemau ffermio.

Bydd Cian hefyd i'w weld ar ***'Dechau Canu Dechrau Canmol'*** yn ystod y misoedd nesaf, pan gaiff gwasanaeth

**Moliant y Maes,**
**Sioe Frenhinol Cymru,**

ei darlledu. Roedd Cian yn rhan o ddeuawd fu'n perfformio yn y gwasanaeth.

*Pob lwc i ti i'r dyfodol.*




## GWEITHRED ANNYMUNOL



Dyma ddigwyddodd ar y lawnt heddiw (29 Gorffennaf) yn ***Gwêl y Don!*** Doedd o ddim yn ddigwyddiad braf i'w weld.

Ydych ch'n adnabod y llofrudd, tybed?

Hedfanodd yn erbyn ffenest y gegin ac yna dechrau ysglyfaethu. Ddarfu ni erlyn y gelyn a gwaredu'r cyw ysguthan anffodus.

*Sian Arwel*




## Canmolwn ein cantorion a'n hadroddwyr

Roedd nifer o enillwyr yn yr Eisteddfod eleni â chysylltiad gyda theulu ehangach Emaus. Yn eu plith roedd **Erin Fflur** o'r Felinheli *(merch Robin Williams ac yn wyres i'r diweddar Emyr Williams, Porthaethwy)* a enillodd nid yn unig yr unawd mezzo 25 oed ond hefyd Gwobr Goffa Osborne Roberts, sef y Rhuban Glas.

Enillodd **Cai Fôn Davies** *(nai Mrs Eryl Ann Jones)* Wobr Goffa'r Fonesig Ruth Herbert Lewis am ganu gwerin a hefyd daeth yn ail yng nghystadleuaeth Llwyd o'r Bryn am adrodd a'r unawd cerdd dant. Hefyd enillodd **Elain Iorwerth** *(wyres y Parchg Olaf a Helen Davies)* yr unawd cerdd dant o dan 21 oed. Mae nifer o'n haelodau yn perthyn i Encôr a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y Côr dros 60. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd!

Llongyfarchiadau i bawb arall a fu'n fuddugol yn y cystadlaethau eraill i gyd. A llongyfarchiadau i ardal Wrecsam am drefnu a chynnal Eisteddfod benigamp a'r arlwy a gawsom ar y cyfryngau trwy'r wythnos yn falm i'r galon a hwb i'r ysbryd.


**Gwledd go iawn!**

**CYLCH DARLLEN**

Byddwn yn cyfarfod yn Emaus yn ôl yr arfer am 2.00 dydd Gwener, Medi 5.
Byddwn yn trafod dwy nofel yr Eisteddfod y rhai enillodd y Fedal Ryddiaith
(**CUDDLIWIO** gan **Bryn Jones**)




a'r Daniel Owen
(**ANFARWOL** gan **Peredur Glyn**).



## CYNHADLEDD PRESWYL SENANA CYMRU, MEDI 2-4, 2025

Bydd Senana Cymru
*(sef Adran Genhadol Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru)*
yn cynnal ei chynhadledd flynyddol yn Nhrefeca o Ddydd Mawrth, Medi 2il hyd Ddydd Iau, Medi 4ydd.
Mae Siân Arwel Davies ac Eleri Lloyd Jones yn bwriadu mynychu a chewch adroddiad amdano ym mis Hydref.

## *CYFARFODYDD BLYNYDDOL MUDIAD Y CHWIORYDD 2025*

**Cynhelir cyfarfodydd blynyddol**
**Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru**
**yn Eglwys y Star, Sir Benfro, ar Ddydd Iau, Medi 25ain**

*pan fydd Mrs Grêt Davies*
*yn cael ei sefydlu'n Llywydd am 2025-26.*

Bydd adroddiad amdanynt yn Negesydd Hydref.



***Y Parchedig J. Elfed Davies yn torri'r dywarchen gyntaf cyn dechrau adeiladu capel Penuel [Emaus] yn 1949 .*** *(Agorwyd y capel newydd yn 1952).*


# CORNEL POSAU GARETH

**ATEB I BOS GORFFENNAF**

**POS CANT**

***Fy rhif gwreiddiol oedd* 16.**

## POS HAF 2025
## POS PENBLWYDD




***Maent yn dwedyd ac yn son mai Awst, ar y cyfan, ydy'r mis mwyaf poblogaidd ar gyfer penblwyddi.***
***Ai dyna'ch profiad?***
***Ganed Alwen ym mis Awst, ar 13 Awst i fod yn fanwl, a dathlodd ei phen-blwydd yn 13 oed eleni.***
***Ym mha flwyddyn fydd hi'n 31 oed?***

***BYDD YR ATEB YN RHIFYN HYDREF.***

## OEDFAON A CHYFARFODYDD MEDI

**Bore Sadwrn, 6 Medi,**
10am tan 12pm
Bore Coffi Masnach Deg

**Bore Sul, 7 Medi,**
Oedfa gymun
dan arweiniad y gweinidog

**Pnawn Iau, 11 Medi,**
3pm tan 4pm
Cyfarfod ***'paned a sgwrs'***

**Bore Sul, 14 Medi,**
Oedfa bob oed
dan arweiniad y gweinidog

**Bore Sul, 21 Medi,**
Oedfa
dan arweiniad y Parchg Hannah Smethurst

**Bore Sul, 28 Medi,**
Oedfa dan arweiniad y gweinidog

# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD - CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD - ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243